Grantiau Gofal yn y Gymuned gan y Gronfa Gymdeithasol a'r Hawliau i gael Adolygiad

Sut y Gall Grantiau Gofal yn y Gymuned Helpu Pobl Hwn

INVESTOR IN PEOPLE

irs
Independent Review Service
for the Social Fund

Beth yw grantiau gofal yn y gymuned?

Mae grantiau gofal yn y gymuned yn rhan o'r Gronfa Gymdeithasol ac maent yn helpu pobl hwn sy'n cael Credyd Pensiwn i dalu am bethau pwysig sydd eu hangen arnynt mewn sefyllfaoedd arbennig.

A allaf gael grant gofal yn y gymuned?

Efallai y gallwch gael grant gofal yn y gymuned i brynu pethau os bydd angen help arnoch i:

- **Ddod at eich hun ar ôl bod yn yr ysbyty neu gartref gofal**
- **Aros yn eich cartref eich hun a bod yn annibynnol**
- **Ymdopi â phroblemau anodd yn eich teulu (fel problemau iechyd)**
- **Ymweld â rhywun sy'n sâl neu i fynd i angladd perthynas.**

Ceir swm penodol o arian ar gyfer grantiau gofal yn y gymuned. Dim ond yr anghenion pwysicaf a'r rhai mwyaf brys y gellir eu talu.

Cynilion

Os oes gennych fwy na £1,000 mewn cynilion, efallai na allwch gael grant gofal yn y gymuned.

Sut ydw i'n gwneud cais am grant gofal yn y gymuned?

Mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen o'r enw SF300. Gallwch gael hon o:

- **Eich canolfan Gwasanaeth Pensiwn**
- **Canolfan Byd Gwaith neu swyddfa Nawdd Cymdeithasol**
- **Gwefan yr Adran Gwaith a Phensiynau: www.dwp.gov.uk**

Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol

Eich Hawliau i gael Adolygiad

Gan y Ganolfan Byd Gwaith

Os nad ydych yn hapus â'r penderfyniad ynglwn â'ch cais am grant gofal yn y gymuned mae hawl gennych gael adolygiad gan Swyddog Adolygu mewn Canolfan Byd Gwaith.

Gan Arolygydd y Gronfa Gymdeithasol

Os nad ydych yn hapus â phenderfyniad y Swyddog Adolygu mae hawl gennych i gael adolygiad annibynnol gan Arolygydd y Gronfa Gymdeithasol. Trowch i'r dudalen gefn am ragor o wybodaeth.

Sut ydw i'n gwneud cais am adolygiad gan Arolygydd y Gronfa Gymdeithasol?

- Llenwch y rhan y gellir ei datgysylltu yn nhaflen IRS1 (a anfonwyd atoch gan y Ganolfan Byd Gwaith gyda phenderfyniad y Swyddog Adolygu)

Neu

- Ysgrifennwch lythyr syml yn dweud pam eich bod yn awyddus i Arolygydd y Gronfa Gymdeithasol adolygu eich cais

Anfonwch hwn trwy INDEPENDENT REVIEW SERVICE, FREEPOST o fewn 28 dyddiau. Byddwn yn gwneud yv gweddill.

Beth fydd Arolygydd y Gronfa Gymdeithasol yn ei wneud?

Bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu atoch ynglwn â'ch achos. Efallai y bydd yn gofyn am ragor o wybodaeth gennych.

Fel arfer bydd yr Arolygydd yn rhoi gwybod i chi am ei benderfyniad o fewn 12 diwrnod gwaith. Bydd yn newid y penderfyniad a wnaed gan y Ganolfan Byd Gwaith os bydd yn anghywir.

IRS 7W
Gwasanaeth Adolygu Annibynnol
Ffôn: 0800 096 1926
e-bost: sfc@irs-review.org.uk
Gwefan: www.irs-review.org.uk
Minicom: 0800 096 1929